Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd

# Croeso ar lethrau'r bryniau: Grwpiau Ffydd a Mewnfudo

Dydd Mercher 26 Mehefin 2019 rhwng 12.00 a 13:15 yn Ystafell Briffio'r Cyfryngau, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol:**

1. Ahmed Alsisi
2. Aled Edwards, Cytûn (Llefarydd)
3. Arfon Jones, Gobaith i Gymru
4. Carol Wardman, yr Eglwys yng Nghymru
5. Elin Jones AC, Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
6. Colin Harris, Cardiff Watch
7. Curtis Shea, swyddfa Darren Millar AC
8. Darren Millar AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cadeirydd)
9. David Emery, Byddin yr Iachawdwriaeth
10. David Forward, Eglwys Iesu Grist a Saint y Dyddiau Diwethaf
11. Jim Stewart (Ysgrifennydd a chofnodwr)
12. Katie McColgan, Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diwethaf
13. Mavis Harris, Cardiff Watch
14. Mohammad Asghar AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
15. Naran Patel, Cyngor Hindwaidd Cymru
16. Omer Williams, Llywodraeth Cymru (sylwedydd)
17. Peredur Owen Griffiths, Cytûn
18. Ralph Upton, Gweini, Capel Blaen y Cwm
19. Shereen Williams, Caplan Mwslimaidd (Prifysgol De Cymru)
20. Siva Sivapalan, cymuned Sri Lankaidd / Cyngor Hindwaidd Cymru
21. Stanley Soffa, cymuned Iddewig

**Ymddiheuriadau:**

1. Ainsley Griffiths, Eglwys yng Nghymru
2. Esgob June Osbourne, Eglwys yng Nghymru
3. Carl Gidney, Eglwys Bedyddwyr Tredegarville
4. Christine Abbas, cymuned Baha'i
5. Y Tad Sebastian Jones, Caplan Catholig y Brifysgol
6. Helen Mary Jones AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
7. Jennifer Lenczner, Swyddog Addysg Atal y Swyddfa Gartref
8. Jenny Rathbone AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
9. Lisa Gerson, cymuned Iddewig
10. Llyr Gruffydd AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
11. Philip Manghan, Archesgobaeth Gatholig Caerdydd
12. Radhika Kadaba, Cyngor Hindwaidd Cymru
13. Rheinallt Thomas, Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
14. Saleem Kidwai, Cyngor Mwslimaidd Cymru

15. Sally Thomas, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig/Cytûn
16. Sharon Lee, Housing Justice
17. Sian Rees, Cynghrair Efengylaidd Cymru

**Cofnodion:**

1. Agorodd Darren Millar AC y cyfarfod a chroesawodd bawb.

2. Diweddarodd Darren y grŵp ar eitemau o ddiddordeb ers i'r cyfarfod diwethaf gael ei gynnal ar 9 Ionawr 2019.

3. Cyflwynodd Darren y Parch Ganon Aled Edwards OBE, a siaradodd ar bwnc **Croeso ar lethrau'r bryniau: grwpiau ffydd a mewnfudo**.

4. Yna cadeiriodd Darren sesiwn holi ac ateb lle trafodwyd ystod eang o faterion yn ymwneud â'r pwnc.

5. Cytunodd y grŵp ar y camau a ganlyn:

    a. Ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn Llywodraeth Cymru, gan ofyn iddi fanteisio ar bob cyfle i sicrhau bod materion cam-drin hawliau dynol ac erledigaeth pobl ar sail eu ffydd yn cael eu codi gyda chynrychiolwyr y cenhedloedd yr effeithir arnynt pryd bynnag y bydd cyfleoedd yn codi.

    b. Ysgrifennu at Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales, i annog BBC Cymru Wales i bortreadu'r rhai sy'n ceisio lloches mewn ffordd sy'n gynrychioliadol o'r sefyllfa go iawn ar lawr gwlad, ac nid mewn ffordd sy'n atgyfnerthu ystrydebau negyddol.

    c. Ysgrifennu at Bwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ofyn iddynt fod yn wybyddus, wrth iddynt wneud eu gwaith mewn gwahanol ymholiadau, o’r ffyrdd ystrydebol ac anghynrychioliadol y mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid weithiau'n cael eu portreadu yn y cyfryngau.

    d. Ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, y mae ei chyfrifoldebau'n cynnwys grwpiau ffydd, i ofyn iddi pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran nodi a mynd i'r afael â chredoau a syniadau diwylliannol gan genhedloedd sydd gan y rhai sy'n ceisio lloches yng Nghymru sydd naill ai'n groes i werthoedd Prydeinig neu a allai gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol.

    e. Anfon e-bost at bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan ofyn iddynt pwy yw eu swyddogion ailsefydlu ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid er mwyn dosbarthu’r manylion cyswllt i aelodau’r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd fel bod grwpiau ffydd a

hoffai gynnig eu gwasanaethau mewn awdurdod lleol penodol yn gallu gwneud hynny.

6. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol lle cafodd y swyddogion canlynol eu hail-ethol:

    a. Ail-etholwyd Darren Millar AC yn unfrydol yn Gadeirydd, ar ôl cael ei enwebu gan Mohammad Asghar AC
    b. Ail-etholwyd Mohammad Asghar AC yn unfrydol yn Ddirprwy Gadeirydd, ar ôl cael ei enwebu gan Darren Millar AC
    c. Ail-etholwyd Jim Stewart yn unfrydol yn Ysgrifennydd, ar ôl cael ei enwebu gan Darren Millar AC.

7. Caeodd Darren y cyfarfod.